SFLWS18

# Cadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn daclus mewn gweithrediadau logisteg

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn daclus mewn gweithrediadau logisteg, a chynnal y safonau hylendid gofynnol.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob gweithredwr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai'r gweithredwyr, er enghraifft, fod mewn maes warws a storio, trafnidiaeth, neu anfon llwythi ymlaen.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd perthnasol yn ymwneud â glanhau **ardaloedd gwaith** mewn gweithrediadau logisteg yn eich sefydliad
2. defnyddio **Offer Amddiffynnol Personol (PPE),** cyfarpar a deunyddiau glanhau i lanhau a thacluso'r **ardaloedd gwaith**
3. glanhau a thacluso'r **ardaloedd gwaith** i gadw glendid, hylendid a diogeledd ar y lefel sy'n ofynnol gan y sefydliad
4. gweithredu rhagofalon diogelwch i ddiogelu **pobl** yn yr **ardaloedd gwaith** rhag **peryglon glanhau** yn ystod gweithdrefnau glanhau
5. lleihau anghyfleustra i **bobl** eraill yn yr **ardaloedd gwaith** wrth lanhau
6. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau gweithredol
7. dychwelyd offer a deunyddiau glanhau i'r ardal storio berthnasol a dilyn gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer eu hadnewyddu
8. cydymffurfio â safonau iechyd a hylendid personol ym mhob gweithgaredd yn y gwaith
9. adnabod ac ymateb i broblemau yn ymwneud â glanhau **ardaloedd gwaith** mewn gweithrediadau logisteg yn eich sefydliad
10. cofnodi'r gwaith sy'n cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
11. cydymffurfio â'r gweithdrefnau sefydliadol a'r holl **ofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** yn ymwneud â chadw'r gweithle yn lân

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o ofynion iechyd, diogelwch a diogeledd sy'n berthnasol i **ardaloedd gwaith** gwahanol mewn gweithrediadau logisteg yn eich sefydliad
2. y gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cadw **ardaloedd gwaith** yn lân ac yn daclus
3. pwysigrwydd cadw **ardaloedd gwaith** yn lân ac yn daclus at ddibenion iechyd a diogelwch
4. y rhagofalon diogelwch sy'n ofynnol wrth ddefnyddio dulliau a deunyddiau glanhau gwahanol
5. sut i ddefnyddio deunyddiau glanhau, offer gwaredu gwastraff ac **Offer Amddiffynnol Personol (PPE)**
6. y gweithdrefnau adnewyddu stoc ar gyfer deunyddiau glanhau
7. dulliau gwaredu gwastraff
8. y safonau hylendid personol sy'n ofynnol ar gyfer amgylcheddau a gweithgareddau storio penodol
9. pam y mae cynnal glanweithdra yn bwysig ar gyfer hylendid
10. y mathau o broblemau'n ymwneud â glanhau a thacluso **ardaloedd gwaith** mewn gweithrediadau logisteg yn eich sefydliad
11. rolau a chyfrifoldebau **cydweithwyr**
12. y systemau gwybodaeth a chofnodi a ddefnyddir gan y sefydliad a'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion
13. y gweithdrefnau sefydliadol a'r **gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** perthnasol yn ymwneud â chynnal ardaloedd gwaith

## Geirfa